**ATODIAD 4**

# Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb: Cylch gorchwyl

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2025 (f.1)

# Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb: Cylch gorchwyl

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1 | 05/2025 | Cylch gorchwyl gwreiddiol |

**Dyddiad adolygu nesaf**
Adolygir y ddogfen yn: Mai 2026
Cynhelir yr adolygiad gan: Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb

**Mwy o wybodaeth**
Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei chynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 752 520
E-bost: Polisi@ynysmon.llyw.cymru

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**
This document is also available in English

## Cefndir

1. Grŵp llywio'r Gymraeg a chydraddoldeb sy'n arwain yn strategol ar fonitro a hyrwyddo'r iaith a chydraddoldeb ym mhob agwedd o waith Cyngor Sir Ynys Môn. Mae holl waith y grŵp yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol, gwerthoedd, ac amcanion cyffredinol cynllun y cyngor, yn ogystal â phrif egwyddorion deddfwriaethol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

2. Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011:
    - ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
    - dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gwaherddir pob math o wahaniaethu mewn perthynas â'r naw nodwedd gwarchodedig isod, a elwir hefyd yn grwpiau a warchodir:
    - Oed
    - Anabledd
    - Ailbennu rhywedd
    - Priodas a phartneriaeth sifil
    - Beichiogrwydd a mamolaeth
    - Hil
    - Crefydd neu gred
    - Rhyw
    - Cyfeiriadedd rhywiol

4. Yng Nghymru, dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd penodol ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau gwell canlyniadau i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Cyfrifoldebau

5. Hyrwyddo'r Gymraeg a chydraddoldeb ym mhob agwedd o waith y cyngor a monitro cynnydd yn erbyn amcanion sefydliadol a deddfwriaethol.

6. Y Gymraeg:

    - Cyfrannu at adolygiadau o'r polisi iaith Gymraeg a monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwnnw a gofynion safonau'r Gymraeg.

    - Cyfrannu at adroddiadau blynyddol ar weithredu safonau'r Gymraeg.

    - Cyfrannu at, a derbyn adroddiadau cynnydd ar, gynlluniau gweithredu strategaeth hybu'r Gymraeg.

    - Derbyn adroddiadau cynnydd ar hyfforddiant iaith Gymraeg a sgiliau iaith y gweithlu.

    - Derbyn adroddiadau cynnydd ar waith Fforwm Iaith Ynys Môn.

- Cyfrannu at ymatebion i ymgynghoriadau'n ymwneud â'r Gymraeg.

7. Cydraddoldeb

   - Cyfrannu ar adolygiadau o'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

   - Cyfrannu at adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb.

   - Cyfrannu at, a derbyn adroddiadau cynnydd ar, gynlluniau gweithredu y cynllun cydraddoldeb strategol.

8. Cyfeirio unrhyw risgiau o ran cydymffurfio â gofynion statudol i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) i'w craffu'n ymhellach.

9. Arwain ar weithredu cylch parhaol o welliannau gyda chefnogaeth swyddogion a gwasanaethau penodol.

10. Cyfrannu at adolygiadau o brif gynlluniau strategol a chynllun y cyngor lle bo'n briodol chynnig arweiniad ar flaenoriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg a chydraddoldeb yn y cynlluniau hynny.

11. Argymell unrhyw wariant ym maes y Gymraeg a chydraddoldeb ar lefel corfforaethol megis comisiynu hapwiriadau, buddsoddi mewn meddalwedd technoleg gwybodaeth (gan gynnwys systemau mewnol), ymgyrchoedd, ac ati.

## Aelodaeth

12. Bydd aelodaeth y grŵp fel a ganlyn:

    - Aelod portffolio addysg a'r Gymraeg
    - Aelod portffolio cydraddoldeb
    - Cynrychiolwyr o'r ddau bwyllgor sgriwtini (cadeiryddion i enwebu un aelod o'r naill bwyllgor)
    - Prif Weithredwr (cadeirydd)
    - Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
    - Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (is-gadeirydd)
    - Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
    - Swyddog Polisi
    - Rheolwr Gwasanaeth Cyfieithu
    - Rheolwr Gwasanaethau Digidol
    - Rheolwr Cydlyniant Cymunedol ac Ailsefydlu
    - Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol

13. Gwahoddir swyddogion eraill i gyflwyno gwybodaeth am feysydd penodol yn achlysurol.

## Llywodraethiant ac atebolrwydd

14. Bydd y grŵp yn cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

15. Cyfeirir unrhyw argymhellion y bydd angen cymeradwyaeth cyn eu gweithredu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Adroddir yn flynyddol ar gynnydd gweithgareddau'r grŵp i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

16. Adroddir yn flynyddol ar weithgarwch y grŵp i'r Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio).